# DEDDF IECHYD ANIFEILIAID 1981

## GORCHYMYN TWBERCWLOSIS (CYMRU) 2010 (O.S.2010/1379) (FEL Y'I DIWYGIWYD)

## TRWYDDED GYFFREDINOL I GANIATAU SYMUD GWARTHEG O FUCHES ACHREDEDIG I ARDAL TB ISEL CYMRU HEB FOD ANGEN I GEIDWAD DREFNU PRAWF AR ÔL SYMUD

Yn unol ag erthyglau 13A a 23 Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd), mae Gweinidogion Cymru drwy'r drwydded gyffredinol hon, yn awdurdodi symud gwartheg o fuches sydd wedi'i hachredu o dan Gynllun Iechyd Gwartheg, naill ai'n uniongyrchol neu drwy grynhoad gwerthu cymeradwy, i ardal TB Isel Cymru heb fod angen i'r ceidwad drefnu prawf ar ôl symud, cyn belled ag y cedwir at amodau'r drwydded hon

Daw'r drwydded gyffredinol hon i rym am 00.01 o'r gloch ar 19 Rhagfyr 2017

Llofnodwyd gan ..............................
O dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiad 19 Rhagfyr 2017

**Amodau:**

1) Bydd y gwartheg wedi dod o fuches sydd wedi'i hachredu o dan Safonau Ardystio Iechyd Gwartheg Cynllun Iechyd Gwartheg trwyddedig fel buches sydd wedi bod heb TB am 10 mlynedd (Lefel 10).
2) Daw'r fuches o ardal TB Ganolradd neu Uchel yng Nghymru neu o ardal yn Lloegr heblaw'r ardal Risg Isel.
3) Rhaid i'r ceidwad sy'n derbyn y gwartheg roi gwybod i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion os ydy'r gwartheg yn cael eu symud i eiddo yn ardal TB Isel Cymru.
4) Bydd y gwartheg wedi'u geni yn y fuches y daw ohoni ac ni fydd wedi symud ohoni.
5) Ni chaiff gwartheg eu symud i'r eiddo nac oddi yno os bydd symudiad o'r fath yn groes i gyfyngiadau sydd mewn grym oherwydd clefyd hysbysadwy arall adeg y symudiad arfaethedig.
6) Mae mynd yn groes i amodau'r drwydded hon yn drosedd o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

**Nodiadau:**

i) Mae gwartheg yn y cyd-destun hwn yn golygu gwartheg domestig o'r genws Bos, byfflos a beison.

ii) Pan fydd gwartheg yn cael eu symud i ardal TB Isel o fuches yn ardaloedd TB Canolradd neu Uchel Cymru neu o ardaloedd Ymylol neu Risg Uchel Lloegr neu o Ogledd Iwerddon, rhaid i'r ceidwad sy'n derbyn yr anifail drefnu bod milfeddyg cymeradwy'n cynnal prawf croen ar ôl symud arno, ddim llai na 60 niwrnod a dim mwy na 120 diwrnod ar ôl i'r anifail gyrraedd yr eiddo sy'n ei dderbyn. Bydd hefyd yn talu am y prawf hwnnw. Nid yw hyn yn cynnwys rhai symudiadau penodedig, gan gynnwys symudiadau a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru.

iii) Mae'r "Ardal TB Isel" yn golygu'r holl dir sydd wedi'i liwio a'i enwi fel yr ardal TB Isel ar y map adneuwyd o Ardaloedd TB Rhanbarthol Cymru.

iv) Safonau Ardystio Iechyd Gwasanaeth (CHeCS) yw'r corff rheoleiddio ar gyfer Cynlluniau Iechyd Gwartheg yn y DU ac Iwerddon. Nid yw'n gorff masnachu a chafodd ei sefydlu gan ddiwydiant gwartheg Prydain i reoli a dileu clefydau anstatudol trwy osod safonau y mae'n rhaid i bob Cynllun Iechyd Gwartheg gadw atyn nhw.

v) Manylion cyswllt yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion:
**Cyfeiriad**: Gwasanaethau Maes Cymru, Tŷ Merlin, Heol Glasdwr, Parc Pensarn, Caerfyrddin SA31 2NF
**Ffôn:** 0300 303 8268.